

Cyngor Cofnodion - cyfarfod 166

Dyddiad y cyfarfod	Dydd Gwener 6 Gorffennaf 2018
Lleoliad	Cyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd
Yno	Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Mike Griffiths (MG), Melanie Hawthorne (MH), Andrew Miller (AM), Dafydd Rhys (DRh), Richie Turner (RT), Kate Eden (KE) ac Alan Watkin (AW) a aeth ar ôl eitem 13.2
Yno	Nick Capaldi (NC), David Alston (DA), Gwyn Williams (GW), Kath Davies (KD), Siân Tomos (ST), Angela Thomas [AT], Duncan Lackie [DL], Ruth Roberts [RR], Chris Batsford a Katy Brown (KB) - cofnodion
Ymddiheuriadau	Marian Wyn Jones (MWJ), John Williams (JW), Iwan Bala a Rachel O'Riordan (ROR) Diane Hebb (DH)
Yn arsylwi	Peter Owen (PO)
Cyfieithu	Steffan Wiliam
Statws y ddogfen:	I'w rhyddhau'n gyhoeddus

	Cam Gweithredu
<p>1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</p> <p>Roedd y Cadeirydd wedi croesawu'r Aelodau i'r cyfarfod a chyflwyno Siôn Brynach, y Pennaeth Cyfathrebu newydd, i'w gyfarfod cyntaf.</p> <p>Roedd hefyd wedi croesawu David Alston a oedd wedi dychwelyd ar ôl bod yn sâl. Roedd pawb yn falch o'i weld. Diolchodd DA i aelodau'r Cyngor ac eraill am y dymuniadau gorau a'r cymorth.</p>	

Nododd y Cadeirydd gyda thristwch farwolaeth ddiweddar y canlynol: Frank Vickery, Meic Stephens, Helen Griffin a Jeff Teare. Roedd pob un yn gyfrannwr pwysig at gelfyddydau Cymru a byddai colled fawr ar eu hôl.

2. Datganiadau o fuddiant (i'w nodi)

Gofynnodd Aelodau'r Cyngor am i ddatganiadau o fuddiant gael eu cofnodi yn y cofnodion (maen nhw wedi'u hatodi i'r cofnodion).

3. Cofnodion cyfarfod 16 Mai 2018

Cafodd y cofnodion eu pasio, ond mae eisiau newid y pethau yma:

Eitem 6.4 – roedd gwall teipio yn y fersiwn Saesneg (issued/issues) nad effeithiodd ar y Gymraeg.

Eitem 9.2 – nododd AM ei fod wedi awgrymu yma y dylai'r Uwch-dîm Arwain allu galw am gymorth ychwanegol i reoli newid. Ymddiheurodd NC fod hyn wedi'i hepgor o'r cofnodion a chaiff ei gywiro. Nododd NC fod yr Uwch-dîm Arwain eisoes wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr rheoli newid yn ôl yr angen. Byddai hyn yn parhau. (Un enghraifft oedd y gweithdai diweddar am amrywiaeth.) Ond, roedd yr Uwch-dîm Arwain yn awyddus i wneud yn siŵr nad oedd hyn yn arafu'r agenda gwella.

4. Materion yn codi

Roedd pob cam gweithredu wedi'i wneud.

Ond roedd y sylwadau canlynol hefyd wedi'u codi.

Gweithdai amrywiaeth

Soniodd NC am lwyddiant y gweithdai amrywiaeth a diolchodd i'r Aelodau'r Cyngor a ddaeth. Bydd sesiynau eraill yn dilyn yn ystod y flwyddyn.

Recriwtio aelodau o'r Cyngor

Mae PG wedi cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod recriwtio 6 aelod newydd i'r Cyngor. Her bwysig oedd bodloni uchelgais y Cyngor i gael aelodaeth amrywiol. Felly, byddai dau gam yn yr hysbysebu – cyhoeddi bod y cyfle'n bod i ennyn diddordeb pobl, ac yna yr hysbyseb ei hun. Byddai PG yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y cynnydd.

Roedden nhw'n disgwyl penodi erbyn Chwefror 2019 i aelodau fod yn barod i fynd ar y Cyngor o Ebrill 2019 ymlaen. Bydd y dyddiad cau ar

PG

gyfer ceisiadau ym mis Tachwedd 2019.

5. Adroddiadau Pwyllgor

5.1 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - 7 Mawrth 2018

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

5.2 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg– 27 Mehefin 2018

Roedd adroddiad am fusnes y Pwyllgor gan MG.

Roedd yn amser prysur iawn i GW a'i staff yn yr adran gyllid. Yn yr archwiliad mewnol blynyddol roedd sgôr o sicrwydd "sylweddol" a llongyfarchiadau i'r gweithwyr am hyn. Gwelodd aelodau'r Pwyllgor welliant o ran pa mor gyflym roedd busnes yn cael ei wneud erbyn hyn.

Dywedodd PG mai KE fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn yr hydref. Bydd DR yn parhau i fod yn Gadeirydd dros dro tan hynny.

Roedd y Cyngor am ailbenodi'r aelodau annibynnol, Andy Butler ac Arwel Thomas i'r pwyllgor. Ond roedd gan Katrina Michael waith arall i'w wneud ac nid oedd am aros am gyfnod arall.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

5.3 Pwyllgor Cyfalaf – 21 Mehefin 2018

Roedd adroddiad am fusnes y Pwyllgor gan AW.

Gwytnwch

Dywedodd y Pwyllgor nad oedd angen yr arian bellach am rai prosiectau. Yn y gorffennol cafodd arian heb ei ymrwymo yng ngwariant y pwyllgor ei 'ysgrifennu'n ôl' i'w gyllideb. Cytunodd y Cyngor i'w wneud.

Theatr Bara Caws

Mae Theatr Bara Caws wedi gweld cyfle newydd i'w ddatblygu ym Mhen-y-groes.

Argymhellion Grant

Cafodd y penderfyniadau grant (dan awdurdod wedi'i ddirprwyo) eu nodi.

Creu Cymunedau Cyfoes

Mae llawer o brosiectau bellach wedi dod i ben a phob arian wedi'i dynnu i lawr. Bydd y pwyllgor yn meddwl am beth gafodd ei ddysgu'n gyffredinol. Bydd y gwerthusiad annibynnol sy'n digwydd yn bwydo hyn.

Dywedodd ST fod Wavehill wedi'i benodi i wneud y gwerthusiad. Roedden nhw wedi cytuno i gael gwerthusiad o'r dechrau ochr yn ochr â rhoi'r rhaglen ar waith. Felly byddai modd i'r canlyniadau effeithio ar y gwaith. Prif dasg y gwerthusiad nawr yw mesur gwerth, effaith ac effeithiolrwydd y rhaglen.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn trafod gyda ni y posibilrwydd o arddangos 3 phrosiect Creu Cymunedau Cyfoes yn ei gynhadledd 'Gwneud Lleoedd Creadigol'.

Roedd PG wedi mynd i ddigwyddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yna roedd wedi cwrrd â'r Comisiynydd a sôn am gyflawniadau'r rhaglen.

6. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor, 2017/18

6.1 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2017/18

Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn rhan o drefn lywodraethu gyffredinol y Cyngor. Yn yr adroddiad roedd gweithgareddau'r Pwyllgor a ffocws y flwyddyn i ddod.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad. Roedd y Cyngor wedi diolch i DRh a GW am baratoi adroddiad mor ofalus.

6.2 Adroddiad Blynyddol Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol 2017/18

Yn yr adroddiad mae gweithgareddau'r Pwyllgor a ffocws y flwyddyn i ddod.

Diolchodd MG i'r fîm adnoddau dynol ac i'r ddau aelod annibynnol am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn. Bydd aelodau newydd i'r Pwyllgor yn cael eu recriwtio o'r cyhoedd.

Roedd MG yn hapus gydag ansawdd y Wybodaeth Reoli gan y fîm adnoddau dynol.

Fel gyda'r Cyngor a'i bwyllgorau eraill, bydd staff yn cael eu gwahodd i ymuno ag Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol i sôn am eu gwaith.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

<p>6.3 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Cyfalaf 2017/18</p> <p>Yn yr adroddiad roedd gweithgareddau'r Pwyllgor.</p> <p>Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.</p>	
<p>7. Adroddiadau Blynyddol Grwpiau Monitro 2017/18</p> <p>Rhan o hunanasesiad y Cyngor oedd meddwl am wneud pob grŵp monitro'n un grŵp mawr. Y penderfyniad oedd peidio â'i wneud nawr achos bod yn rhaid i bob grŵp gadw ei ffocws am y tro. Ond dylai'r grwpiau rannu rhagor â'i gilydd. Y penderfyniad oedd gofyn i Gadeiryddion gwrdd i drafod y posibiladau o rannu pethau'n well a nodi'r pethau mewn cyffredin.</p> <p>7.1 Adroddiad Blynyddol Cenedlaethau'r Dyfodol 2017/18</p> <p>Dywedodd MH fod y copi o'r adroddiad yn un drafft. Ond roedd yn cynnwys uchelgais y Cyngor i arwain ym maes llesiant a chreu ffordd newydd o weithio.</p> <p>Yn yr adroddiad gwelodd AM fod mwy o weithwyr anabl yn y portffolio ond llai o bobl dduon, Asiaidd ac ethnig. Roedd y newid yn y ffigyrau'n eithaf sylweddol. Ond roedd KD wedi dweud nad oedd y tîm ymchwil wedi cael cyfle eto i edrych yn fanwl ar y ffigyrau.</p> <p>Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.</p>	
<p>7.2 Adroddiad Blynyddol am y Gymraeg, 2017/18</p> <p>Cyflwynodd NC yr adroddiad. Bydd yr adroddiad yn mynd wedyn at Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd yn ymddangos bod rhagor o bobl yn mynd i'r celfyddydau sy'n wahanol iawn i'r blynyddoedd o'r blaen. Rhaid inni edrych i mewn i hyn.</p> <p>Roedd NC yn falch o adrodd bod 52% o weithwyr y Cyngor yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg.</p> <p>Er bod MWJ yn absennol, roedd wedi gofyn am enwebu 'arweinydd' i Grŵp Monitro'r Gymraeg o'r Uwch-dîm Arwain. Bydd yr Uwch-dîm Arwain yn meddwl am y cynnig.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

8. Busnes y Cadeirydd
8.1 Adroddiad y Cadeirydd

Soniodd PG am y digwyddiadau diweddar yr oedd ynddynt.

Cyfarfod Cydraddoldebau â Llywodraeth Cymru

Roedd swyddogion y Llywodraeth am wybod am y cynnydd y mae cyrff a noddir gan y Llywodraeth yn cael gydag agenda'r cydraddoldebau. Roedd y Llywodraeth yn falch o'r pethau mae'r Cyngor yn ei wneud.

Dysgu Creadigol yn y Celfyddydau

Roedd pawb wedi cytuno i gael gweld y gwerthusiad am y rhaglen yng nghyfarfod Hydref.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

DH

8.2 Cyfrifon blynyddol am weithgareddau cyffredinol 2017/18
8.3 Cyfrifon blynyddol am Ddosbarthu'r Loteri, 2017/18

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gynhyrchu adroddiadau a chyfrifon blynyddol yn unol â'r canlynol:

- safonau cyfrifyddu presennol
- Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth
- y datganiad o arferion elusennol a argymhellir
- y cyfarwyddiadau am y cyfrifon a gawn gan Lywodraeth Cymru (am y gweithgareddau cyffredinol)
- yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (am ddosbarthu arian y Loteri)

Roedd y Cyngor wedi trafod adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am archwilio'r datganiadau ariannol. Yn Atodiad 1 mae'r llythyr gyda sylwadau Aelodau/Ymddiriedolwyr y Cyngor wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch eu cyfrifoldeb am y datganiadau ariannol.

Darllenodd a phasiodd y Cyngor drafft yr adroddiadau a'r datganiadau ariannol i'w gosod o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru (cyfrifon y Loteri a gweithgareddau cyffredinol) a Senedd Lloegr (cyfrif y Loteri) ac i'w cyhoeddi.

Fel arwydd o hapusrwydd y Cyngor gyda'r papurau, roedd y Cadeirydd wedi llofnodi'r llythyr o gynrychiolaeth a'r adroddiadau a'r

datganiadau ariannol ar y tudalennau arbennig. Roedd y Prif Weithredwr wedi gwneud yr un peth am ei fod yn Swyddog Cyfrifyddu.

8.4 Adroddiad ISA 260

Roedd GW wedi cyflwyno a disgrifio'r adroddiad. Yn yr atodiadau roedd llythyrau o gynrychiolaeth i'r ddau gyfrif. Roedd materion yno hefyd roedd yn rhaid i'r Cyngor eu gweld, ond dim byd pwysig.

Cyn belled ag yr oedd y swyddogion yn gwybod, y bwriad oedd cyhoeddi datganiadau archwilio diamod i'r ddau gyfrif.

Diolchodd PG i'r fîm cyllid ac Ann Wright am eu gwaith gwyb.

9. Llywodraethu Corfforaethol

9.1 Cod yr Arfer Orau

Y cod yw'r brif ddogfen lywodraethu sy'n arwain:

- gwaith y Cyngor
- aelodau o'i bwyllgorau
- ei ymgynghorwyr
- ei staff

Rydym ni'n adolygu'r cod bob tair blynedd neu'n amlach gan ddibynnu ar beth sy'n digwydd o'n cwmpas, er mwyn iddo aros yn gyfoes ac addas.

Roedd y papur yn argymhell rhai diwygiadau bach i'r cod.

Roedd KE yn hapus i'r Cyngor basio'r papur. Ond gofynnodd am gyflwyno copiâu caled o'r holl bapurau yn y dyfodol i'w darllen yn haws (ac i beidio â gorfod dibynnu ar y system ar-lein, Ffynnon).

Roedd y Cyngor wedi derbyn y gwelliannau.

9.2 Polisi Preifatrwydd

Roedd Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd wedi dod i rym ar 25 Mai 2018, yn lle'r Ddeddf Diogelu Data. Rhaid i bob corff sy'n casglu, prosesu a storio data personol gadw'r Rheoliadau yma.

Ni fydd llawer o wahaniaeth yn ymarferol yn y ffordd mae'r Cyngor yn casglu a chynnal cofnodion adnoddau dynol, rhestrau o gwsmeriaid, neu fanylion cyswllt. Os oes gennym wybodaeth sy'n dod dan Ddeddf Diogelu Data, bydd hefyd yn dod dan y Rheoliadau. Ond roedd angen esbonio hyn mewn polisi preifatrwydd newydd.

Roedd y Cyngor wedi pasio drafft y polisi preifatrwydd.

9.3 Cylch gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Roedd y Cyngor wedi derbyn y gwelliannau.

10. Busnes y Prif Weithredwr

10.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Yn yr adroddiad roedd manylion am ei gyfarfodydd a'r digwyddiadau a'r perfformiadau yr oedd ynddynt yn ddiweddar.

Roedd ynddo hefyd wybodaeth am staff sydd wedi ymuno ac wedi gadael y Cyngor ers y cyfarfod diwethaf.

Ymweld â Shanghai

Pwrpas ymweld oedd trafod a llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag asiantaeth ddiwylliannol o Dsieina, AC Orange. Mae'n gorff uchelgeisiol sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n rheoli dros 120 theatr a gwneud gwaith darlledu ac ar-lein. Drwy weithio gyda'r Cyngor, mae am ddatblygu enw da am waith arloesol arbenigol. Roedd hyn yn enghraifft ymarferol o effaith y Memorandwm rhwng Llywodraethau Tsieina a Chymru.

Yn Shanghai, roedd NC wedi cwrdd â nifer o arweinwyr celfyddydol ac artistiaid. Roedd diddordeb cryf mewn datblygu cysylltiadau â Chymru.

Byddai Cerddorfa Genedlaethol Cymru y BBC yn ymweld â Tsieina ar daith cyn y Nadolig. Bydd yn gyfle pellach i ddangos diwydiannau creadigol Cymru.

Brexit

Mae tîm Brexit yn Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar ffyrdd o drosoli arian arall os bydd Cymru yn colli allan yn ariannol.

Dywedodd AM fod Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi sefydlu Pwyllgor Brexit. Mae lwerddon hefyd yn meddwl am sefydlu llysgenadaethau diwylliannol ar draws y byd.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

10.2 Gweithredu ein cynlluniau

Dywedodd NC, yn sgil cytuno ar y cynlluniau corfforaethol a gweithredol ym Mawrth, fod gwaith perthnasol arall wrthi'n cael ei wneud hefyd. Byddwn ni'n lansio'r cynllun corfforaethol ym Medi dan y teitl 'Er budd

pawb'.

Roedd y Cyngor wedi dirprwyo'r awdurdod i gytuno ar gopi terfynol y cynllun corfforaethol i'r Cadeirydd gyda'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyfathrebu.

Roedd rhaglen eang o weithgareddau ar waith i ymateb i'r materion o arolwg y staff. Roedd materion tebyg wedi cael eu codi yn adroddiad Deloitte am yr adolygiad sefydliadol. Roedd y Cyngor yn disgwyl gweld bod y rhain yn cael eu datrys.

Roedd rhai gweithredoedd yn ddibynnol ar eraill, fel adolygu cyflog cyn trafod cylch cyflog 2018/19, ond roedd llawer o'r gwaith ar y gweill. Bydd cyfarfod Hydref y Cyngor yn clywed am yr holl waith. Yno hefyd bydd trafodaeth derfynol am yr adolygiad sefydliadol.

Gofynnodd MG am ragor o wybodaeth am y strategaeth gyfathrebu fewnol. Dywedodd NC fod yr adnoddau staff bellach yn eu lle, a byddai'n disgwyl i'r gwaith gyflymu. Roedd SB wedi disgrifio sut y byddai hyn yn digwydd ac roedd y Cyngor yn hapus gyda hyn.

PG

11. Ymateb i adroddiadau pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol

11.1 Adeiladu Gwydnwch – arian i'r celfyddydau nad yw'n arian cyhoeddus

Ym Mawrth 2018 roedd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a Chymraeg y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi canfyddiadau ei ymchwiliad i arian i'r celfyddydau nad yw'n gyhoeddus. Roedd y Cyngor wedi clywed am y rhain ym Mai.

Ers hynny roedd y Gweinidog dros Ddiwylliant wedi paratoi ymateb y Llywodraeth i argymhellion y Pwyllgor. Ar 22 Mai ysgrifennodd atom ni gan ofyn am ein barn ar yr ymateb roedd yn meddwl ei gyflwyno. Mae copi o lythyr y Gweinidog ac ymateb PG ynghlwm wrth y papur.

Roedd y Cyngor wedi nodi cynnwys yr adroddiad.

11.2 Taro'r nodyn iawn – arian i wasanaethau cerddoriaeth a mynediad atynt

Ym Mehefin 2018, roedd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a Chymraeg y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi canfyddiadau ei ymchwiliad i addysg gerddorol (ei hariannu a mynediad iddi).

Y rheswm am yr ymchwiliad oedd y diddordeb mawr iawn yn y pwnc yn yr arolwg cyhoeddus yn haf 2016.

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- mynediad i wasanaethau cerddoriaeth yr awdurdodau lleol i holl blant a phobl ifanc
- y sefyllfa bresennol gydag ensembles cenedlaethol a rhanbarthol
- cynnydd wrth weithredu argymhellion adolygiadau Llywodraeth Cymru i wasanaethau cerddorol ac ensembles celfyddydol cenedlaethol
- effaith penderfyniadau ariannol ar ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth yr awdurdod lleol a chwestiynau am y gweithlu addysg gerddorol
- meddwl am y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau addysg gerddorol drwy'r trydydd sector a'r un masnachol

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddatrys y diffygion yn y maes ledled Cymru. Dyma nod y Pwyllgor: bod gan bob plentyn, ni waeth beth am ei sefyllfa ariannol neu lle mae'n byw, gyfle cyfartal i symud ymlaen i ragoriaeth mewn addysg gerddorol.

Roedd y Cyngor wedi cytuno â dadansoddiad y swyddogion ac ymateb i'r Pwyllgor yn seiliedig ar y dadansoddiad.

Roedd y Cyngor wedi nodi cynnwys yr adroddiad a'r themâu a'r materion i'w cynnwys yn yr ymateb

12. expenses@work – dangos system dreuliau'r Cyngor ar waith

Dangosodd Ruth Roberts, Cydlynnydd y Tîm Cyllid a Duncan Lackie, Uwch Swyddog Cyllid sut roedd y system yn gweithio. Bydd wedyn wybodaeth am fynd ar y system a chefnogaeth i aelodau yn y dyfodol.

13. Portffolio Celfyddydol Cymru

13.1 Adroddiad Radar Portffolio Celfyddydol Cymru

Cyflwynodd KD yr adroddiad.

Nawr rydym yn derbyn adroddiadau cydraddoldeb strategol oddi wrth sefydliadau cyn inni wneud taliadau'r ail chwarter. Mae swyddogion hefyd wedi derbyn holl arolygon y portffolio am y cyfnod Medi 2017-Mawrth 2018 a chytuno arnynt. Ar hyn o bryd mae'r tîm ymchwil yn casglu a dadansoddi'r data.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

13.2 Mae eich siaced achub bywyd dan eich sedd... Y diweddaraf am y Rhaglen Gwytnwch

Cyflwynodd KD yr adroddiad a oedd yn sôn am y cynnydd gan sefydliadau.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad cynhwysfawr.

14. Adroddiadau ariannol

14.1 Pensiynau

Roedd RT wedi datgan buddiant yn y cynllun pensiwn fel aelod o'r cynllun. Ond oherwydd natur yr eitem, nid oedd rhaid iddo fynd o'r stafell.

Disgrifiodd y papur y diweddaraf am sefyllfa'r diffyg a oedd yn y prisiad actiwaraid ffurfiol diwethaf (effeithiol o 1 Ebrill 2017). Soniodd GW am y camau gweithredu rydym ni'n eu cymryd i wella'r sefyllfa o ran costau'r dyfodol ac am y cynnig i wneud cyfraniad ar ffurf cyfandaliad at y cynllun i glirio'r diffyg. Gyda'r cynnig bydd y Cyngor yn arbed llawer - tua £50,000 - o'i gymharu â'r cynllun ad-dalu diffygion presennol. Nodwyd yr arian fel rhan o gario ymlaen cynllun busnes 2017/18 i Lywodraeth Cymru.

Ond bydd y dyfodol o hyd yn heriol. Cyfrifoldeb y Cyngor fel cyflogwyr yw gwneud popeth posibl i sicrhau bod y cynllun yn parhau'n fforddiadwy. Nododd GW hefyd ein bod wedi contractio gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr a'r Alban Greadigol mewn ymarferiad ar y cyd i archwilio opsiynau i liniaru costau budd-daliadau'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Cytunodd y Cyngor i dalu cyfandaliad o ryw £372,000, neu'r fath gyfraniad bydd yr actiwari'n nodi, i'n cynllun pensiwn yn unol â'r papur.

14.2 Argymhellion ariannu

Mae penderfyniadau ar geisiadau loteri o £50,001 neu fwy angen cael cytundeb y Cyngor. Mae 9 o argymhellion yn y papur yma.

Cyfeirnod	Sefydliad	Cais	Argymhelliad	Maes
20180405	Y Tu Hwnt i'r Ffin: Gŵyl Adrodd Straeon	£80,000	£0	Grant Gŵyl
20180425	Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen	£80,000	£80,000	Grant Gŵyl

20180354	Ffotogallery	£75,000	£75,000	Grant Gŵyl
20180496	Gŵyl Bro Morgannwg	£70,000	£70,000	Grant Gŵyl
20180359	Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen	£64,000	£64,000	Grant Cefnogi Rhaglen
20180394	Opera Dinas Abertawe	£70,000	£70,000	Grant Cynhyrchu Mawr
20171864	Ensemble Cymru	£66,165	£66,165	Grant Cynhyrchu Mawr
20180411	Fio	£60,000	£60,000	Grant Cynhyrchu Mawr
20180362	Pontio	£60,000	£60,000	Grant Cynhyrchu Mawr
		£625,165	£545,165	

Roedd y Cyngor wedi cytuno â'r argymhellion yma.

14.3 Mewnwelediad Cynulleidfaol

Cyflwynodd CB y papur.

Ar hyn o bryd mae 31 lleoliad sy'n rhan o'r prosiect ac mae dros 19 miliwn o drafodion tocyn wedi'u cofnodi.

Roedd y contract presennol yn dod i ben ac felly roedd arolwg. Yn y papur hwn mae canfyddiadau'r arolwg.

Dyma gasgliad y swyddogion: dewis gwell o bosibl yn y dyfodol fyddai rhannu'r prosiect yn ddau yn ôl ei ddau fath o waith am y cyfnod nesaf.

1. Ochr dechnegol o gasglu a storio data swyddfa docynnau gyda rhyngwyneb am ddadansoddiad
2. Ochr adrodd i helpu lleoliadau i adrodd llai a chyfle am ddarnau newydd o waith ar lefel genedlaethol a rhanbarthol

Y cynnig oedd rhannu'r tendr yn ddau (technegol ac adrodd) a bydd tendrwy'r yn gallu cynnig am un neu ddau o'r rhannau.

Roedd y Cyngor wedi trafod y papur a chytuno ar y cynnig am y tendr.

15. Adroddiadau er gwybodaeth

15.1 Y diweddaraf am Blas Bute

Bydd ein prydles bresennol yn dod i ben yn Chwefror 2019. Rhan o arbed arian fydd chwilio am rywle rhatach. Roedd Cyngor yn hapus i swyddogion ddechrau chwilio.

Ar ôl trafod, mae opsiwn wedi codi inni allu aros ym Mhlas Bute. Yn y papur mae manylion y telerau terfynol ar gyfer Plas Bute. Byddwn ni'n defnyddio'r rhain i gytuno ar y brydles. Dyma'r sail felly i'r argymhelliad i adnewyddu ein prydles ym Mhlas Bute a pheidio â symud swyddfa.

Yn y cynnig yma mae arbedion mawr ar gostau rhedeg. Mae hefyd y cyfle i ad-drefnu'r swyddfa a chael ôl-troed llai i ateb ein gofynion gwaith, nawr ac yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn talu £18 y droedfedd sgwâr a £7.85 y droedfedd sgwâr am wasanaeth. Rydym yn meddwl bydd costau'r brydles yn y dyfodol yn arbed rhyw £90,000 y flwyddyn. Roedd y Cyngor wedi llongyfarch GW a'r tîm ar eu gwaith gwych.

Roedd y Cyngor wedi cytuno â phrydles newydd Plas Bute gyda'r telerau yn yr adroddiad yma, yn dilyn cadarnhad terfynol bod bwrdd y landlordiaid wedi cytuno â hyn a chael contractau cyfreithiol.

15.2 Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol/Cofrestr Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn archwilio y Fframwaith bob chwarter a rhoi gwybod i'r Cyngor bob blwyddyn. Cytunodd y Cyngor ym Mawrth 2018 i ofyn i gael gweld y ddogfen ym mhob cyfarfod i'r Cyngor ar ôl i'r Pwyllgor ei gweld. Roedd yr Uwch-dîm Arwain wedi adolygu a diweddarau'r meysydd i bob amcan ym Mai a Mehefin. Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi gweld y fersiwn yma cyn ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

Mae'r adran dueddiadau yn y Fframwaith yn nodi'r prif bwyntiau sydd wedi codi o'r adolygiad diweddar.

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad.

15.3 Adroddiad Chwarter 1 o'r Cynllun Gweithredol, 2017/18

Roedd y Cyngor wedi nodi'r adroddiad a oedd yn adolygu cynnydd yn erbyn ein targedau.

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Gwener 18 Hydref 2018, Cyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd

Cyfarfod y Cyngor
Gwener 6 Gorffennaf 2018
Crynodeb o'r camau gweithredu a phenderfyniadau

Eitem Agenda	Cam gweithredu/penderfyniad	Cyfrifol
4	Rhoi gwybod am gynnydd cael aelodau newydd i'r Cyngor	PG
7.2	Efallai enwebu aelod o'r Uwch-dîm Arwain i arwain ar gyfer Grŵp Monitro'r Gymraeg	NC
8.1	Cyflwyniad am asesu'r rhaglen Dysgu Creadigol i gyfarfod Hydref	DH
10.2	Cafodd y gair olaf am gopi terfynol y Cynllun Corfforaethol a'i ddyluniad ei ddirprwyo i'r Cadeirydd gyda'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyfathrebu	PG